

Atodiad 1: Amserlen o'r gweithgareddau a wnaed i gefnogi Hunanasesu 2022/23

- Cynhaliwyd adolygiad Blwyddyn 1 o'r broses Hunanasesu yn **Rhagfyr 2022** ac o ganlyniad bu mân addasiadau er mwyn sicrhau od y broses yn fwy effeithiol ym Mlwyddyn 2 gan gryfhau pa mor cadarn oedd y dystiolaeth a gasglwyd.
- Gwnaed dadansoddiad Bwrdd Gwaith rhwng **Ebrill a Mehefin** er mwyn coladu a dadansoddi'r dystiolaeth oedd ar gael (data mewnol, tystiolaeth allanol ac ymgynghoriad).
- Cynhaliwyd Gweithdy Hunanasesiad cyntaf y Grŵp Arweiniol ar **18 Ebrill** er mwyn clustnodi unrhyw dystiolaeth, heriau a chyfleoedd i wella a'r sgôr.
- Cynhaliwyd Gweithdy Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu ar **24 Ebrill** er mwyn cofnodi persbectif Aelodau ar berfformiad y Cyngor a chyfleoedd i wella.
- Cynhaliwyd ail Gweithdy Grŵp Arweiniol ar **18 Mai i adolygu'r dystiolaeth a'r sgoriau**, ac i gymeradwyo Matrics Prif Lwybrau Ymholi sy'n cynnwys canlyniadau'r ymarfer.
- Drafftwyd Adroddiad Hunanasesu 2022/23 rhwng **Mehefin ac Awst 2023** gan y Tîm Perfformiad ac Ymchwil.
- Gwnaed yr arolwg Rhanddeiliaid Corfforaethol rhwng **28 Mehefin a 31 Awst**.
- Cyflwynwyd yr Adroddiad Hunanasesu Drafft i'r Grŵp Arweiniol ar **30 Awst** ac y'i gymeradwywyd i fynd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.
- Cyflwynwyd yr adroddiad Hunanasesu Drafft i'r Grŵp Arweiniol / Cabinet ar **19 Medi**.
- Cyflwynwyd yr Adroddiad Hunanasesu Drafft i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar **27 Medi** fel rhan o rôl statudol y Pwyllgor i adolygu a gwneud argymhellion ar y casgliadau a nodwyd yn yr adroddiad a'r camau gweithredu y bwriedir ei wneud gan y Cyngor. Bu i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio gymeradwyo'r adroddiad er mwyn ei gyhoeddi ac ni wnaed unrhyw argymhellion ffurfiol.
- Adroddwyd ar yr adborth o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar yr Adroddiad Hunanasesu Drafft i'r Grŵp Arweiniol ar **28 Medi**.
- Diweddarwyd yr Adroddiad Hunanasesu ym mis **Hydref** gyda mân newidiadau fformatio er mwyn gwella ansawdd yr adroddiad cyn ei adrodd i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu.
- Cyflwynwyd yr Adroddiad Hunanasesu Drafft i'r Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu ar **6 Tachwedd**.
- Cyflwynwyd yr Adroddiad Hunanasesu Drafft i'r **Cabinet** ar 7 Tachwedd.